

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Llanelen, Sir Fynwy) (Gwahardd
Cerbydau Dros Dro) 2019

The A4042 Trunk Road (Llanelen,
Monmouthshire) (Temporary
Prohibition of Vehicles) Order
2019

Gwnaed 29 Hydref 2019

Made 29 October 2019

Yn dod i rym 5 Tachwedd 2019

Coming into force 5 November 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A4042 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Llanelen, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 5 Tachwedd 2019.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Llanelen, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2019 and it comes into force on 5 November 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 5 Tachwedd 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig.

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means the period commencing at 20:00 hours on 5 November 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o'r gefnffordd yn Llanelen, Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 16 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

29 Hydref 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road at Llanellen, Monmouthshire that extends from a point 16 metres north of the centre-point of its junction with the B4269 to a point 90 metres north of the centre-point of that junction.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

29 October 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042
(LLANELEN, SIR FYNWY) (GWAHARDD
CERBYDAU DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, yn Llanellen, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o bwynt 16 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 hyd at bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau ysgafn sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd tua'r gogledd ar y B4269 i Lan-ffwyst, ar y B4246 Merthyr Road, ar yr A4143 a thua'r dwyrain ar yr A465 i ailymuno â'r A4042 wrth Gylchfan Hardwick, y Fenni: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau ysgafn sy'n teithio tua'r de.

Dylai cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio tua'r gogledd ddilyn yr A4042 tua'r de i Gylchfan Grove Park, yr M4 tua'r dwyrain i Gyffordd 24 (Coldra), yr A449 tua'r gogledd i Gyfnewidfa Rhaglan a'r A40 tua'r gorllewin i Gyfnewidfa Hardwick: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn dod i rym ar 5 Tachwedd 2019 ac yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 8 Tachwedd 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>

**THE A4042 TRUNK ROAD (LLANELLEN,
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road at Llanellen, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the length of the A4042 trunk road that extends from a point 16 metres north of the centre-point of its junction with the B4269 to a point 90 metres north of the centre-point of that junction.

The alternative route for northbound light vehicles is via the northbound B4269 to Llanfoist, B4246 Merthyr Road, A4143 and eastbound A465 to rejoin the A4042 at Hardwick Roundabout, Abergavenny: vice versa for southbound light vehicles.

Northbound HGVs should follow the southbound A4042 to Grove Park Roundabout, eastbound M4 to Junction 24 (Coldra), northbound A449 to Raglan Interchange and westbound A40 to Hardwick Interchange: vice versa for southbound HGVs.

It is expected that the prohibition will come into force on 5 November 2019 and operate overnight (20:00 – 06:00 hours) until 8 November 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government